Rhif: **WG23315**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Crynodeb Gweithredol

Gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Rheoliadau a Chod Ymarfer mewn perthynas â Rhannau 3 a 4 (Asesu a Diwallu Anghenion) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

ISBN Digitol 978 1 4734 2511 8
© Hawlfraint y Goron 2014
WG23315

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sail i fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Gweinidogion wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith hwn fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Bydd y fframwaith yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Y broses o wneud codau a rheoliadau o dan y Ddeddf

Mae'r rheoliadau, y codau a'r canllawiau statudol wedi cael eu datblygu drwy broses ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac maent bellach yn cael eu cyflwyno i randdeiliaid ledled Cymru er mwyn cael eu cyfraniad.

Bydd yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau a'u gosod yn cael ei wneud o dan y Ddeddf a'i gynnal mewn dwy gyfres yn bennaf. Bydd y gyfres gyntaf ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos a fydd yn dechrau ym mis Tachwedd 2014. Disgwylir y bydd ymgynghoriad yr ail gyfres yn cael ei gynnal rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2015. Y bwriad yw gosod y rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ym mis Mai 2015 er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol addasu i'r gofynion newydd cyn iddynt gael eu gweithredu ar 6 Ebrill 2016.

Yr hyn y mae'r gyfres gyntaf o reoliadau a chodau ymarfer yn ei gwmpasu

Mae'r gyfres gyntaf yn ymdrin â darpariaethau craidd yn ymwneud â chymhwystra, asesu, cynllunio gofal a chymorth a thaliadau uniongyrchol yn Rhannau 2 i 4 o'r Ddeddf, ynghyd â darpariaethau yn Rhan 7, yn ymwneud â diogelu, a Rhan 11 yn ymwneud â phreswylfa arferol ac anghydfodau cysylltiedig.

Cwmpas y cod ymarfer a'r rheoliadau mewn perthynas â Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf

Rhan 3: Asesu Anghenion Unigolion

Newidiadau Allweddol
Mae'r Ddeddf yn creu hawl i asesu ar gyfer pobl – oedolion, plant a gofalwyr – lle y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol y gall fod gan yr unigolyn anghenion ar gyfer gofal a chymorth (neu anghenion cymorth yn achos gofalwr).

Nod
Y nod yw symleiddio'r broses asesu fel ei bod yn briodol i anghenion yr unigolyn ac yn ystyried holl amgylchiadau'r person. Bydd yr asesiad yn trafod atebion sy'n diwallu anghenion yr unigolyn yn y ffordd orau o fewn y gwasanaethau canlynol:

- y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy;
- y gwasanaethau ataliol a chymunedol; neu
- gofal a chymorth a reolir drwy gynllun gofal a chymorth.

Mae'r fframwaith ar gyfer yr holl asesu, y syml a'r cymhleth, yn nodi isafswm set ddata genedlaethol wedi ei ddilyn gan ddadansoddiad o **5 ffactor cydberthynol** i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried holl amgylchiadau'r person. Dyma'r ffactorau hyn:

- Canlyniadau personol
- Rhwystrau i gyflawni canlyniadau personol
- Amgylchiadau'r person
- Cryfderau a galluoedd y person
- Risgiau

Efallai y bydd **asesiad syml** dim ond yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio templed lleol cyffredin, y gellir ei gynnal pan fydd person yn cael mynediad i'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy. Bydd **asesiad mwy cymhleth** yn cynnwys yr asesiad syml ac asesiadau arbenigol ychwanegol i ffurfio asesiad integredig mwy cynhwysfawr. Ar ddiwedd yr holl asesiadau rhaid i'r person fod â dealltwriaeth glir o **ganlyniad** yr asesiad a'r hyn fydd yn digwydd nesaf.

Mae'r broses asesu yn hanfodol i'r system ehangach o ofal a chymorth ac mae'r prawf cymhwystra yn deillio'n naturiol o'r broses asesu.

Rhan 4: Diwallu Anghenion: Cymhwystra

Newidiadau Allweddol
Mae'r fframwaith cymhwystra a nodir o dan y Ddeddf yn creu hawl orfodadwy i'r unigolyn, lle y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried yr hyn y gellid ei wneud i ddiwallu anghenion, ac yna dyfarnu a oes unrhyw rai o'r anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ac felly y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu diwallu.

Drwy'r model newydd o ofal cymdeithasol bydd y model cymhwystra yn dileu'r trothwy traddodiadol ar gyfer mynediad at ofal a chymorth a reolir ac yn gosod model mwy ymatebol yn ei le sy'n ystyried ymateb unigol ar gyfer pob person.

Nodau
Nid yw dyfarnu cymhwystra yn ymwneud â rhoi hawl i unrhyw un gwasanaeth; mae'n ymwneud â gwarantu mynediad i ofal a chymorth i fodloni canlyniadau llesiant. Yn y model newydd bydd awdurdodau lleol yn mynd i'r afael ag anghenion eu poblogaethau drwy ymyrryd ac atal yn gynnar wedi ei dargedu i leihau'r galw ar gymorth dwysach. Fodd bynnag, lle nad yw'r gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion y person bydd cynllun gofal a chymorth yn cael ei ddatblygu.

Mae'r prawf cymhwystra'n deillio'n naturiol o asesiad ac mae'n dilyn prawf syml fel a ganlyn:

Bydd gan y person anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra os bydd asesiad yn sefydlu y gallant, ac y gallant yn unig, oresgyn rhwystrau i gyflawni eu canlyniadau llesiant os bydd yr awdurdod lleol yn paratoi cynllun gofal a chymorth iddynt (neu gynllun cymorth i ofalwr), a sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni.

Mae hwn wedi dod i gael ei alw yn brawf 'Gallu, a Gallu yn Unig' ('Can and Can Only' test).

Cynlluniau Gofal a Chymorth

Newidiadau Allweddol
Bydd cynllun gofal a chymorth yn cael ei greu pan fydd asesiad yn nodi na ellir darparu gwasanaethau heb gynllun neu lle gellir darparu gwasanaeth heb gynllun ond mae angen cymorth parhaus ar yr unigolyn i gael mynediad at y gwasanaethau hyn.

Nodau
Rhaid i gynllun gofal a chymorth nodi'r canlyniadau personol a nodi'r ffordd orau o helpu i'w cyflawni. Nid yw'n fwriad ceisio disodli trefniadau lleol ac arbenigol gofal presennol ar gyfer cynllunio gofal a cymorth, nac i'w gwneud yn ofynnol cael templed cenedlaethol unigol ar gyfer 'cynllun gofal a chymorth'. Bydd cymhlethdod neu ddifrifoldeb angen yr unigolyn yn penderfynu cwmpas a manylion y cynllun gofal a chymorth a'r amrywiaeth o ymyriadau.

Rhaid i fformat y cynllun gofal a chymorth fod yn gyson a dylai gwmpasu'r canlynol o leiaf:

- Canlyniadau personol a'r camau gweithredu i'w cynnal i helpu i'w cyflawni;
- Rolau a chyfrifoldebau'r unigolyn, gofalwyr ac aelodau o'r teulu, ac ymarferwyr a pha mor aml y maent yn cysylltu â'r rheini;
- Yr adnoddau (gan gynnwys adnoddau ariannol) sy'n ofynnol gan bob parti;
- Yr adolygiad a threfniadau wrth gefn a sut y bydd cynnydd yn cael ei fesur;
- Y cydlynydd arweiniol a enwir.

Lle y mae cynllun yn ei le ar gyfer yr unigolyn sy'n bodloni gofynion cynllun gofal a chymorth gellir ystyried ei fod yn bodloni dyletswydd yr awdurdod lleol.

Lle y mae'r cynllun gofal a chymorth yn cynnwys ymweliadau â chartref y person at ddibenion darparu gofal a chymorth, **rhaid** i'r ymweliadau hynny fod yn ddigon hir i sicrhau bod y gofal a'r cymorth yn cael ei ddarparu'n briodol

Darparu Taliadau Uniongyrchol yn y Dyfodol

Trosolwg
Mae taliadau uniongyrchol yn symiau ariannol a ddarperir gan awdurdodau lleol i unigolion, neu eu cynrychiolwyr, i'w galluogi i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae taliadau uniongyrchol yn grymuso pobl i gael dewis a rheolaeth dros y ffordd y mae eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu, sy'n ategu eu dulliau cymorth presennol i gyflawni eu canlyniadau llesiant dymunol.

Mae taliadau uniongyrchol yn cymryd lle gofal a chymorth a ddarperir yn uniongyrchol, neu a gomisynir gan awdurdod lleol. Gallant fod ar gyfer holl anghenion gofal a chymorth person, neu ar gyfer rhan o anghenion gofal a chymorth person. Yn yr achos olaf bydd gweddill eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu mewn ffordd arall.

Newidiadau Allweddol
Bydd ein cynigion yn gweld parhad o daliadau uniongyrchol fel ffordd o gyflawni canlyniadau llesiant pobl ond mewn ffordd sy'n gwella eu gallu i ddyfarnu pa ofal a chymorth sy'n gywir iddynt hwy, yn eu barn hwy. Hefyd, bydd ein cynigion yn sicrhau estyn y taliadau uniongyrchol sydd ar gael ar gyfer mathau eraill o ofal a chymorth (er enghraifft ar gyfer gofal preswyl hirdymor) ac i unigolion sydd ar hyn o bryd wedi eu heithrio rhag cael taliadau uniongyrchol (er enghraifft y rhai â phroblemau cyffuriau neu alcohol).

Nod
O dan y Ddeddf ceir ysgogiad i roi llais a rheolaeth i bobl dros y ffordd y mae eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae hyn yn adeiladu ar eu dulliau cymorth presennol o deulu, ffrindiau, ac ati. Mae taliadau uniongyrchol yn cael eu gweld fel galluogwr i gyflawni'r nod hwn lle y mae unigolion am gael mwy o lais a rheolaeth dros sut y mae eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu.

O dan y Ddeddf rydym yn ceisio:

- cynnal gallu awdurdodau lleol i ddarparu taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn neu blentyn; ac anghenion cymorth gofalwr;
- gwneud hyn mewn ffordd sy'n gwella eu gallu i benderfynu ar y gofal a'r cymorth y maent o'r farn sy'n gywir iddynt hwy i gyflawni eu canlyniadau personol;
- cynnal gallu person i gael taliad uniongyrchol â chymorth lle y mae'n methu ei reoli, neu'n amharod i'w reoli;

- annog hyblygrwydd ac arloesedd mewn dulliau o ddarparu gofal a chymorth, er enghraifft drwy fentrau cydweithredol;
- annog canfyddiad bod taliadau uniongyrchol yn un o amrywiaeth o ffyrdd y gellir diwallu anghenion. Dylai'r sgwrs â rhywun ynghylch a yw taliad uniongyrchol yn iawn iddynt hwy ddigwydd ar y dechrau yn ystod y broses asesu pan fydd opsiynau'n cael eu trafod yn hytrach nag fel ystyriaeth eilaidd.

Felly dyma'r gwahaniaethau yn y ffyrdd y bydd taliadau uniongyrchol yn gweithredu o dan y Ddeddf:

- byddant ar gael ym mhob achos lle y mae unigolyn, neu ei gynrychiolydd, yn mynegi dymuniad i dderbyn un. Yr unig gyfyngiad fydd lle y mae'r awdurdod lleol o'r farn na all eu hanghenion gofal a chymorth gael eu diwallu drwy daliadau uniongyrchol.
- byddwn yn dileu rhai eithriadau presennol o rai dosbarthiadau o bersonau rhag derbyn taliadau uniongyrchol fel y bydd, er enghraifft, y rhai sydd â dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol yn gallu cael mynediad at daliadau uniongyrchol gyda mesurau diogelu priodol.
- bydd modd darparu taliadau uniongyrchol ar gyfer unrhyw anghenion am ofal a chymorth a nodwyd y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei fodloni gan gynnwys, yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, gofal preswyl hirdymor.
- bydd person yn gallu defnyddio ei daliadau uniongyrchol i brynu ei ofal a'i gymorth yn uniongyrchol gan ei awdurdod lleol os bydd yn dymuno. (Mae hyn wedi ei wahardd ar hyn o bryd.)
- bydd person yn gallu cyflogi perthynas i ddarparu ei ofal a'i gymorth, neu ddarparu cymorth o ran rheoli ei daliad, lle y mae'r awdurdod lleol o'r farn bod hyn yn angenrheidiol i gynnal ei lesiant.
- bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio gyda phobl, neu eu cynrychiolwyr, i archwilio ffyrdd arloesol o ddiwallu eu hanghenion drwy daliadau uniongyrchol i gyflawni eu canlyniadau llesiant.

O ganlyniad bydd taliadau uniongyrchol yn y dyfodol yn gweithredu o dan fframwaith deddfwriaethol llai cyfyngol, ac un sy'n cynorthwyo arloesedd.